OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1580 (Cy.156)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - -	*25 Mehefin 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*26 Mehefin 2009*
Yn dod i rym - -	*17 Gorffennaf 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, sydd wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) (Diwygio) 2009; maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 17 Gorffennaf 2009.

Diwygio Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) 2009

2. Mae Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) 2009(**3**) ("y Prif Reoliadau") wedi'u diwygio'n unol â Rheoliad 3.

Diwygio'r fersiwn Saesneg o'r Prif Reoliadau

3. Yn rheoliad 41(a) o'r fersiwn Saesneg o'r Prif Reoliadau, mewnosoder y gair "intentionally" ar ôl y gair "to".

(**1**) O.S. 2005/2766.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2009/1372 (Cy. 135).